
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Traeth Marloes i Martin’s Haven, Sir Benfro

## Darganfyddwch un o gorneli mwy anghysbell Sir Benfro sy’n llawn bywyd gwyllt rhyfeddol a golygfeydd arfordirol trawiadol.

*“Taith gerdded wych yn llawn golygfeydd a bywyd gwyllt! Peidiwch ag anghofio dod â’ch binocwlars, eich camera a’ch bwced a rhaw ar y rhan odidog hon o’r llwybr.”*

**THERESA NOLAN, WYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a Diwedd:

Maes parcio Traeth Marloes i faes parcio Martins Haven.

### Pellter:

2 milltir/3km.

### Ar hyd y ffordd...

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn ymlwybro o amgylch y clogwyni, gyda golygfeydd godidog o Ynysoedd Sgomer, Sgogwm a Gateholm. Mae'r ynysoedd, a enwyd gan oresgynwyr Llychlynnaidd, yn enwog am eu trefedigaeth enfawr o balod. Mae'r adar carismatig hyn yn un o'r trigolion lleol. Gallwch hefyd weld brain coesgoch sy'n nythu, rafftiau o adar drycin, bwncathod, cigfrain, hebogiaid tramor a llu o adar eraill yr arfordir.

Ar ddiwedd Awst a dechrau Medi, cadwch lygad am forloi llwyd gyda'u cenau wrth ymyl y dŵr. Wrth i chi ddilyn llwybr y clogwyn, cewch eich dallu gan arddangosfeydd lliwgar o flodau gwyllt. Byddwch yn gweld y llwylys, briallu ac eirlysiau yn gynnar yn y flwyddyn, a chlychau'r gog yn niwedd y gwanwyn a blodau neidr, bysedd y cŵn a chlustog Fair yn yr haf.

Ym mhen gorllewinol Penrhyn Marloes mae pentir garw, bron yn debyg i ynys. Stopiwch yng ngorsaf Sefydliad Cenedlaethol Gwylio'r Arfordir (SCGA) Wooltack Point i weld golygfeydd helaeth ar draws Bae Sain Ffraid tuag at Ynys Dewi a Phenrhyn Dewi. Mae'r pentir hefyd yn gartref i Barc Ceirw. Nid yw'r clostir muriog hwn, a adeiladwyd yn y 18fed ganrif, erioed wedi cadw ceirw ac erbyn hyn mae merlod mynydd Cymreig a gwartheg duon Cymreig yn pori yno. Mae tripiau cychod yn rhedeg o Martin's Haven i Sgomer a Sgogwm.

### Angen gwybod:

Ceir meysydd parcio a thoiledau cyhoeddus ar ddau ben y daith. I gael bwyd a diod, galwch i mewn i gaffi Runwayskiln, a leolir 150m o faes parcio Traeth Marloes.

Mae bws y Puffin Shuttle yn cysylltu dau ben y daith, tra bod y gwasanaeth 315 yn cysylltu Marloes ag Aberdaugleddau a Hwlffordd.

Edrychwch ar www.pembrokeshire.gov.uk/bus-routes-and-timetables am fanylion.